Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2021**

**DYDDIAD** **14 Rhagfyr 2020**

**GAN** **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd**

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2021**

Rheoliadau 2021:

<u>Deddfwriaeth yr UE:</u>

- Cymhwyso darpariaethau fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o Reoliad (CE) rhif 2003/2003 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n ymwneud â gwrteithiau fel ag y mae’n gymwys yng Nghymru a Lloegr ac yn yr Alban, i Ogledd Iwerddon yn amodol ar newidiadau.

<u>Deddfwriaeth Ddomestig</u>

- Diwygio Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Ymadael â’r UE) 2019 (O.S. 2019/601).

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw Rheoliadau 2021 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Ymadael â'r UE) 2021 yn diwygio Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/601) yng ngoleuni Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon ar y Cytundeb Ymadael (y Protocol) i adlewyrchu'r ffaith bod fersiwn cyfraith yr UE o Reoliad (CE) 2003/2003 ar wrteithiau yn parhau'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon.

Mae O.S. 2019/601 yn disodli trefn 'gwrteithiau'r CE' yng nghyfraith yr UE a rhoi yn ei lle trefn newydd ar gyfer y DU gyfan sy'n darparu ar gyfer label 'gwrteithiau'r DU' a fyddai'n gweithio yn yr un ffordd. Mae'r Protocol yn nodi y bydd rhai darpariaethau yng nghyfraith yr Undeb a restrir yn y Protocol yn gymwys o dan rai amodau yn y DU mewn perthynas â Gogledd Iwerddon. Rhestrir Rheoliad (CE) rhif 2003/2003 yn Atodiad 2 y Protocol. Mae'r offeryn hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod fersiwn cyfraith yr UE o Reoliad (CE) rhif 2003/2003 yn parhau'n gymwys a'i fod yn cymhwyso hefyd ddarpariaethau fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o Reoliad (CE) 2003/2003 ar wrteithiau fel ag y mae'n gymwys yng Nghymru a Lloegr ac yn yr Alban, i Ogledd Iwerddon yn amodol ar newidiadau. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl marchnata "gwrteithiau'r DU" yng Ngogledd Iwerddon. Bydd Rheoliad (CE) 2003/2003 fel y caiff effaith o dan gyfraith yr UE yn parhau'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon o dan "y Protocol" ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio.

Mae Rheoliad (CE) 2003/2003 yn pennu rheolau ar ddynodi, diffinio, cyfansoddi, adnabod a phacio 'gwrteithiau'r CE' y gellir eu masnachu'n rhydd ledled yr UE. Pe bai O.S. 2019/601 yn cael ei gadw heb ei newid, byddai fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o Reoliad (CE) rhif 2003/2003 yn ymddangos fe pe bai'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon gan y byddai'n cynnwys cyfeiriadau at gyrff Gogledd Iwerddon, ond er y cyfeiriadau hyn, byddai'n gymwys yn unig ym Mhrydain Fawr, hynny oherwydd effeithiau cyfun adrannau 3 a 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae gofyn hefyd ar Reoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 i'w gwneud yn bosibl marchnata 'gwrteithiau'r DU' yng Ngogledd Iwerddon.

Mae Rheoliadau 2020 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n gosod manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:
https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2021/9780348216905

**Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Chymru ac ar ei rhan er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Barnwyd nad yw'r diwygiadau'n newid polisi ar ôl ystyried yn llawn a gofalus y diwygiadau, yr asesiad o gyfarwyddiadau'r polisi a'r dadansoddiad cyfreithiol o'r gwaith drafftio. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.